MENTER IAITH BRO MORGANNWG

# MENTER BRO MORGANNWG ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

heritage
treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI















# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Blwyddyn Newydd Dda! Croeso i adroddiad blynyddol Menter Iaith Bro Morgannwg - menter sydd bellach yn dechrau ar ei phumed blwyddyn o weithgareddau yn hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Fro.

Fe fu 2017 yn flwyddyn brysur unwaith eto i'r Fenter, yn cynnig clybiau chwaraeon i blant, sesiynau amser stori a wâc welis i'r plant lleiaf, sesiynau sgwrsio i ddysgwyr, gofal plant dros y gwyliau a llawer mwy - a hynny oll drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafwyd Gŵyl Fach y Fro lwyddiannus tu hwnt yn yr haf, yr orau eto! Braf dweud y bydd yn dychwelyd i Ynys y Barri yn 2018 - mae'r trefniadau eisoes ar y gweill a bydd manylion y perfformwyr a'r gweithgareddau yn cael eu cyhoeddi maes o law. Gwyliwch y gofod!

Mae'r Fenter yn dal i ddysgu - mae rhai gweithgareddau'n profi'n fwy poblogaidd a llwyddiannus nag eraill, felly rydyn ni wastad yn awyddus i glywed adborth ac ystyried syniadau newydd a chydweithio mewn partneriaeth lle bo hynny'n bosib. Rhannwch eich syniadau.

Wrth edrych ymlaen at 2018, un o'r cynlluniau cyffrous yw'r posiblrwydd o sefydlu meithrinfa Gymraeg ar dir Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Byddai hyn yn ddatblygiad arloesol, ac fe fyddwn yn annog trigolion y Fro i roi eu barn ar y cynllun – mae modd gwneud hynny tan ddiwedd mis Ionawr, os nad ydych wedi dod ar ei draws yn barod, cysylltwch â ni am gopi caled neu linc i'r holiadur ar-lein.

Mae'n ddiwedd cyfnod a dechrau un newydd i'r Fenter. Ar ddiwedd 2017, gadawodd Siân Lewis ein Prif Weithredwr i fynd i weithio i'r Urdd, a mawr yw ein diolch iddi am ei harweiniad cadarn. Mae Manon Rees O'Brien wedi ei phenodi i'w holynu, ac edrychwn ymlaen i gydweithio â hi pan fydd yn cymryd at yr awennau ddechrau Chwefror.

Diolch i bawb sydd wedi bod yn rhan o waith y Fenter yn y flwyddyn ddiwethaf, a phawb sydd wedi bod i'n gweithgareddau i sicrhau eu bod yn llwyddiant. Diolch i Gyngor Bro Morgannwg, Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chronfa'r Loteri am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad, i aelodau'r bwrdd am eu cyfraniad, ac yn bennaf oll, hoffwn ddiolch i Ffion Rhisiart am ei brwdfrydedd a'i dyfalbarhad fel Swyddog Datblygu'r Fenter.

Edrychwn ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn 2018.

**Gwenllian Grigg**
**Cadeirydd Menter Bro Morgannwg**



# CEFNDIR Y FENTER

Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg ym mis Ionawr 2014, gyda'r nod o hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r mudiad yn gymharol ifanc gydag 1 aelod o staff llawn amser, 1 aelod o staff rhan amser a 4 aelodau o staff sy'n cynorthwyo gyda'r gwaith ar y cyd gyda'u swyddogaethau i Fenter Caerdydd. Prif nod y Fenter yw darparu profiadau gwerthfawr a chyfleoedd apelgar i blant, pobl ifanc ac oedolion wneud defnydd o'r iaith Gymraeg y tu allan i oriau ysgol ac oriau gwaith. Yn ogystal â hyn ein bwriad ydy gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir Bro Morgannwg a nifer o bartneriaid Cymraeg a di-Gymraeg eraill yr ardal er mwyn codi statws yr iaith o fewn y Sir.

Mae gwasanaethau presennol y Fenter yn adlewyrchu anghenion ein cwsmeriaid; yn deuluoedd, plant, oedolion, dysgwyr a'r di-Gymraeg. Rydym yn rhyngweithio'n rheolaidd gyda'n cwsmeriaid er mwyn sicrhau bod llais y cwsmer yn allweddol wrth i ni gynllunio ein gwasanaethau i'r dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gwaith yn parhau i adlewyrchu anghenion cymunedau Cymraeg a dysgwyr y Fro ac rydym wedi sefydlu cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol sydd yn ein caniatáu i fesur a rheoli ein perfformiad yn gywir.

Rydym wedi sefydlu a'n arwain Fforwm Iaith Gymraeg Bro Morgannwg ers 2013, er mwyn dod â mudiadau a chymdeithasau sy'n gweithredu drwy'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg at ei gilydd; sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Ysgolion Cyfrwng Cymraeg y Sir, Urdd Gobaith Cymru, Cymraeg i Blant, Cymraeg i Oedolion, Merched y Wawr, Coleg Caerdydd a'r Fro, Mudiad Meithrin a Chynrychiolwyr o Gymdeithasau'r Fro. Rydym yn cwrdd dair gwaith y flwyddyn i adrodd nôl am ein meysydd gwaith, rhannu syniadau am arfer da ac ystyried cyfleoedd i gyd-weithio. O'r trafodaethau hyn mae cyfle wedi codi yn ddiweddar i wneud cais am grant wrth y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac fe gafom wybod cyn y Nadolig bod y cais wedi llwyddo. Fe fydd y prosiect yn rhedeg rhwng mis Ionawr a Gorffennaf 2018, ac yn enghraifft gwych o sut allwn ni fel partneriaid Cymraeg weithio gyda'n gilydd i sicrhau mwy o gyfleoedd Cymraeg i drigolion y Fro.

Mae ein Bwrdd Rheoli yn cynnwys 15 o aelodau, gydag 8 ohonynt yn Gyfarwyddwyr y Cwmni, ac mae'r Bwrdd yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn i drafod datblygiadau'r Fenter. Bydd ein Bwrdd Rheoli yn parhau i graffu ein gwaith a darparu dull llywodraethu cadarn er mwyn sicrhau bod Menter Bro Morgannwg yn creu gwasanaethau yn addas i'r diben, a'n bod yn parhau i fod mewn sefyllfa gref i gynnal ein gwasanaethau'n llwyddiannus.


Ein prif gyllidwyr yw Llywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chronfedd y Loteri.

**Hyrwyddo ac ehangu'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol ym Mro Morgannwg, gan sicrhau bod yr iaith yn dod yn rhan ganolog o fywyd yn y Fro, a bod pob trigolyn yn rhannu'r cyfrifoldeb am ei dyfodol a'i ffyniant.**

# INCWM

Rydym wedi gweld cynnydd o 322% yn incwm y Fenter rhwng 2013/14 a 2017/18, ac rydym yn gyson yn chwilio am gyfleoedd pellach i ddatblygu prosiectau, nawdd a gwasanaethau newydd. Rydym yn parhau i dderbyn grant o £60,000 gan Lywodraeth Cymru, ac erbyn hyn hefyd yn derbyn £34,000 y flwyddyn gan Gyngor Bro Morgannwg ar gytundeb 3 mlynedd. Mae gweddill ein cyllideb yn dod o ffioedd gweithgareddau a grantiau allanol er mwyn cynnal prosiectau fel Gŵyl Fach y Fro (Cyngor Celfyddydau Cymru, Loteri Fawr) a 'Iolo ar Daith' (Treftadaeth).

# INCWM MENTER BRO MORGANNWG




# SWYDDOGION

| | |
|---|---|
| **Siân Lewis** | Prif Weithredwr |
| **Ffion Rhisiart** | Swyddog Datblygu |
| **Jén Dafis** | Swyddog Cymunedol |
| **Leah Dafydd / Gwenno Roberts (mamolaeth)** | Swyddog Gofal a Theulu |
| **Llinos Williams a Lia Hawen** | Swyddogion Tafwyl |
| **Nia Donnelly** | Swyddog Cyllid |

Mae nifer o staff Menter Bro Morgannwg yn staff craidd Menter Caerdydd sy'n rhannu eu hamser er mwyn creu gwasanaethau yn y Fro.

Bydd Manon Rees-O'Brien, Prif Weithredwr newydd Menter Bro Morgannwg, yn dechrau ar ei swydd ym mis Chwefror 2018.





# CYTUNDEB FFRAMWAITH GYDA CHYNGOR BRO MORGANNWG

Ym mis Hydref 2016, cafwyd cadarnhad o gytundeb Fframwaith newydd rhwng Cyngor Bro Morgannwg a'r Fenter – buddsoddiad blynyddol o £34,000 ar gytundeb o 3 mlynedd. Prif nod y Fframwaith yw i hybu defnydd cymdeithasol o'r iaith Gymraeg yn y Sir, a chryfhau safle'r Gymraeg yng nghymunedau'r Fro. Dyma'r tro cyntaf yn hanes y Gymraeg yn y Fro i'r Cyngor Sir gynnig cyllid a chynllun strategol i gefnogi'r Gymraeg ar lefel gymdeithasol. Mae'r meysydd targed o fewn y Fframwaith newydd yma'n cynnwys:

- Gweithgareddau i'r Teulu
- Cyfleoedd Chwaraeon a Chwarae
- Gofal Plant a Darpariaeth Gwyliau Ysgol
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Mae'r Fframwaith yma wedi ein caniatâu i ddatblygu'r rhaglen yn sylweddol, ac mae mwy o fanylion am y meysydd penodol o fewn yr is-benawdau isod.

**"Mae'r cytundeb fframwaith hwn yn gydnabyddiaeth ffurfiol o'r gwaith partneriaeth sydd eisoes wedi digwydd rhwng Menter Bro Morgannwg a'r Cyngor i gynnig y gweithgareddau hyn ac ymrwymo i barhau i gydweithio i gynnig y cyfleoedd hyn yn y dyfodol."**

# STRATEGAETHAU LLEOL A CHENEDLAETHOL

Mae gwaith craidd Menter Bro Morgannwg yn cynnwys:

- Hyrwyddo a chreu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg
- Codi hyder a newid agweddau pobl tuag at yr iaith Gymraeg
- Cryfhau'r iaith Gymraeg a'i defnydd ymysg teuluoedd
- Datblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl ifanc ac oedolion
- Datblygu Gwyliau Cymraeg i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Sicrhau bod platfform gweledol ar gyfer yr iaith Gymraeg ar lefel ddigidol

Drwy ganolbwyntio ar y prif blaenoriaethau hyn bydd Menter Bro Morgannwg yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o hybu'r Gymraeg yn y Fro ac yn mynd i'r afael â prif blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

Byddwn yn parhau i gynorthwyo a sicrhau bod Cyngor Bro Morgannwg yn gwireddu'i ofynion statudol o ran sicrhau cyfleoedd teg drwy'r Gymraeg i drigolion y Fro, a hynny trwy barhau i gyfarfod yn rheolaidd gyda Chynghorwyr ac Uwch Swyddogion, mynychu Fforymau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a chyfrannu at y broses o gynllunio a drafftio dogfenau strategol.

Canlyniad Llesiant 3: Bro Uchelgeisiol a Diwylliannol Fywiog

Amcan 6: Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth drwy gydweithio â phartneriaid i hyrwyddo defnydd y Gymraeg.

**Cynllun Corfforaethol 2016-20, Cyngor Bro Morgannwg**

Er mwyn cynnal a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg dros y pum mlynedd nesaf, mae angen i Gyngor Bro Morgannwg a'i bartneriaid flaenoriaethu rhai meysydd polisi allweddol ar gyfer gweithredu, sy'n cynnwys:

i. Ehangu addysg cyfrwng Cymraeg o'r cyfnod cyn-ysgol i addysg ôl-16
ii. Gwella trosglwyddo iaith yn y cartref
iii. Cynyddu nifer yr oedolion sy'n dysgu Cymraeg
iv. Ymestyn cyfleoedd i blant, pobl ifanc a theuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol
v. Ymestyn y ddarpariaeth o weithgareddau cymunedol a hamdden drwy gyfrwng y Gymraeg
vi. Ehangu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

**Strategaeth Hybu'r Gymraeg (Medi 2016), Cyngor Bro Morgannwg**

Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio… Mae angen cyfleoedd ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrediad o sefyllfaoedd sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth yn eu ffordd o fyw. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd ar lefel y teulu, yn y gweithle, wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol, neu fel aelodau o rwydweithiau a chymunedau diddordeb ehangach a all fod ar wasgar ym mhedwar ban byd. Rhaid mynd ati'n rhagweithiol i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg, fel nad oes yn rhaid i'r unigolyn ofyn am y Gymraeg. Yn y pen draw, y weledigaeth yw bod pobl yn ei defnyddio ar bob cyfle, a bod y cyfleoedd ar gael ym mhob man.

Ein nod: sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.

**Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru**

Nod: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Llywodraeth Cymru**








# GWEITHGAREDDAU I'R TEULU





Hybu'r Gymraeg ymysg teuluoedd a phlant cyn oed ysgol yw rhai o brif dargedau Llywodraeth Cymru fel a amlinellir yn 'Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg', ac felly mae cynnig amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd yn rhan bwysig o wasanaeth y Fenter.

**Amser Stori**

Rydym erbyn hyn yn cynnal 4 sesiwn Amser Stori – yn Llyfrgelloedd Penarth, y Barri, y Bontfaen a Llanilltud Fawr. Cynhelir y sesiynau stori a chân am ddim yma yn wythnosol yn ystod tymor yr ysgol, ac mae dros 50 o blant a rhieni yn mynychu'r sesiynau bob wythnos. Mae'r sesiwn yn y Bontfaen ychydig yn dawelach na'r gweddill erbyn hyn, a bydd ymgyrch dros y misoedd nesaf i gynyddu niferoedd yn gyffredinol, ac yn yr ardal honno yn benodol. Yn ystod tymor yr Haf 2017, cynhaliwyd hefyd sesiwn stori a chân a chlwb celf yn Llyfrgell Dinas Powys.

**Sesiynau Wâc Welis**

Mae'r teithiau natur wedi bod yn boblogaidd iawn dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn ystod 2017 rydym wedi cynnal 5 o sesiynau Wâc Welis a Dawns y Dail mewn lleoliadau amrywiol sy'n cynnwys traeth Llanilltud Fawr, Fferm Ymddiriedolwyr Amelia, Cosmeston, traeth Ynys y Barri a Phorthceri. Er bod y sesiynau wedi eu targedu'n benodol at blant 2-6 oed, maen nhw'n addas i'r teulu i gyd, ac rydym wedi denu 25 o deuluoedd i ymwneud â'r gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yma gyda'i gilydd yn ystod 2017.

**Penwythnos Teulu i Langrannog**

Rydym yn trefnu Penwythnos i'r Teulu yng Ngwersyll Llangrannog yn flynyddol, ar y cyd gyda Menter Caerdydd, sy'n denu teuluoedd Cymraeg a di-Gymraeg eu hiaith am benwythnos o hwyl. Yn ogystal â'r cyfle i drio pob un o weithgareddau'r gwersyll, rydyn ni fel Menter yn trefnu gwers Cymraeg i rieni ac adloniant gyda'r nos, er mwyn rhoi cymaint â phosibl o gyfleoedd i'r plant a'u teuluoedd gymdeithasu gyda'i gilydd yn y Gymraeg. Mae'r penwythnos bob tro'n boblogaidd – ac edrychwn ymlaen at fynd yn ôl dros wyliau'r Pasg eleni!





# GOFAL PLANT

**"Siawns i plant siarad, clywed a chwarae trwy'r Gymraeg tu allan i ysgol. Oriau da ar gyfer gwaith hefyd."**

**Cynllun Gofal Gwyliau**

Ers derbyn 'Grant Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol' (Llywodraeth Cymru) ym mis Chwefror 2015, mae Menter Bro Morgannwg wedi cyd-weithio gyda Chyngor Bro Morgannwg i ddarparu gwasanaeth Gofal Gwyliau yn adeilad cynradd Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Rydym bellach yn derbyn £2,000 o Fframwaith y Cyngor i gefnogi'r gwasanaeth hwn, ac mae'r cyllid cynaliadwyedd hynny yn ein caniatâu i gadw ffioedd yn rhesymol a chystadleuol, a pharhau i gynnig amserlen amrywiol o weithdai, gweithgareddau a thripiau safonol.

Mae'r ddarpariaeth ar gael i bob plentyn sy'n derbyn addysg cynradd Cymraeg yn y Fro, ac yn cael ei gynnal yn ystod pob gwyliau ysgol, ag eithrio'r Nadolig. Dyma'r unig ddarpariaeth gofal diwrnod cyfan cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg (8.30am – 5.30pm), ac felly mae'n cynnig cyfleoedd hollbwysig i rieni barhau i weithio ac i'r plant i barhau i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg y tu allan i dymor yr ysgol.

Rydym wedi parhau i weld cynnydd yn y nifer o blant sy'n mynychu, gyda dros 600 o blant wedi mynychu ein darpariaeth Gofal Gwyliau yn ystod 2017.

Rydym wedi cyflogi 15 aelod o staff dros y flwyddyn, gydag 11 ohonynt wedi derbyn cymwysterau ychwanegol sy'n cynnwys Chwarae (Lefel 2), Rheoli Cynlluniau Chwarae (Lefel 3), Cymorth Cyntaf Paediatrig a Hylendid Bwyd.

Rydym yn gwerthuso'r gwasanaeth yn flynyddol drwy sgyrsiau wyneb yn wyneb gyda phlant a rhieni yn ogystal â holiaduron ar-lein i rieni a staff, a dyma'r adborth a gasglwyd ar ddiwedd gwyliau'r Haf 2017;

- O'r 29 o rieni a gwblhaodd yr arolwg, atebodd 76% ohonynt eu bod yn defnyddio'r gwasanaeth oherwydd ymrwymiadau gwaith97% yn dewis Cynllun Gofal Bro Morgannwg am ei fod yn wasanaeth Gymraeg
- 89% yn credu bod Cynllun Gofal Bro Morgannwg yn helpu eu plant i godi hyder i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
- 100% yn credu bod Menter Bro Morgannwg yn cynnig gwasanaeth da a phroffesiynol

**"Excellent playscheme through the medium of Welsh"**

**"The staff are fantastic and really make an impression on our son. He continues using the Welsh language during holiday times and really enjoys the activities."**



**"Without this scheme myself and my husband wouldn't be able to work full time. This scheme is so important to our son as he loves all the organisers who run it but it also gives him the opportunity to meet new friends who he could meet again when he progresses to comprehensive school. He continues to be educated while having fun in the Welsh language too."**

**"It provides childcare to cover a full working day, not many schemes do! And as we are a non Welsh speaking family at home it was a fantastic opportunity to keep up with the Welsh language."**





# CYFLEOEDD CHWARAEON A CHWARAE

**Clybiau Chwaraeon**

Mewn partneriaeth ag Adran Chwaraeon yr Urdd, rydym yn darparu 10 o glybiau wythnosol ar draws Bro Morgannwg i blant o ddosbarth derbyn i flwyddyn 6. Mae rhain yn cynnwys gwersi nofio yng Nghanofan Hamdden Penarth, Canolfan Hamdden y Barri a Hebron Hall, clybiau gymnasteg, athletau, pêl-rwyd a nifer o sesiynau aml-chwaraeon ar ôl ysgol. Rydym hefyd yn darparu gwersi Nofio i Ddechreuwyr i blant 3-4 oed. Mae'r clybiau yma i gyd yn cael eu harwain gan hyfforddwyr profiadol a chymwys, gyda dros 220 o blant yr wythnos yn mynychu ac yn ymwneud â gweithgareddau hamdden trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Sesiynau Chwarae Agored BWRLWM**

Un o ddatblygiadau newydd a mwyaf llwyddiannus 2017 oedd y sesiynau chwarae BWRLWM, a gynhaliwyd am 3 wythnos yn ystod gwyliau'r Haf. Roedd rhain yn sesiynau 1 awr 55 munud ddwywaith y dydd ac yn cael eu cynnal mewn parciau a lleoliadau gwahanol bob diwrnod o'r wythnos - Parc Fictoria (Y Barri), Bear Field (Y Bontfaen), Parc Belle Vue (Penarth), Gerddi'r Cnap (Y Barri) a Chlwb Rygbi Llanilltud Fawr. Fe brofodd y sesiynau rhad ac am ddim yma'n boblogaidd iawn - gyda dros 230 o blant wedi mynychu o leiaf un sesiwn dros y cyfnod, a chyfartaledd o 37 o blant ym mhob sesiwn!

Mae'r adborth rydym wedi ei dderbyn wrth rieni a gwarchodwyr yn bositif iawn ac yn amlygu'r galw am sesiynau tebyg yn ystod pob gwyliau ysgol drwy'r flwyddyn.










# DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED

**Darpariaeth Cymdeithasol i Ddysgwyr**

Mae dros 40 o ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion a Chymraeg i'r Teulu yn cael eu cynnal yn wythnosol ar draws y Fro, sy'n denu dros 200 o ddysgwyr. Ers Awst 2016, mae rhain yn cael eu darparu gan Adran Dysgu Cymraeg Bro Morgannwg, sy'n rhan o Gyngor Bro Morgannwg. Mae datblygu cyfleoedd allgyrsiol yn hollbwysig er mwyn cefnogi'r broses o ddysgu ffurfiol, ac mae ffocws y Fenter ar gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer a defnyddio eu Cymraeg yn gymdeithasol.

O ganlyniad i'r Fframwaith, rydym wedi gallu datblygu ar yr elfen hwn yn sylweddol. Erbyn hyn rydym yn cynnal 4 bore coffi wythnosol; yn Foxy's Deli (Penarth), Caffi Academy (Pumphouse, Y Barri), Gwesty'r Bear (Y Bontfaen) a Café Velo (Llanilltud Fawr). Rydym hefyd yn cynnal sesiwn 'Dysgu a Diod' gyda'r nos ar nos Lun cyntaf pob mis, sy'n cael ei gynnal yn yr Old Swan Inn erbyn hyn. Mae dros 50 o unigolion yn mynychu'r sesiynau yma bob mis a dysgwyr newydd yn ymuno yn gyson.

Yn ystod 2017, rydym hefyd wedi cynnal dau Gwis Tafarn sydd wedi cynnig cyfleoedd pellach i ddysgwyr ymarfer eu Cymraeg mewn awyrgylch gymdeithasol.



# GIGS BACH Y FRO

Sefydlwyd Gigs Bach y Fro ym mis Hydref 2014 drwy gefnogaeth grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru, gyda'r nod o gynnig llwyfan newydd i artistiaid mwyaf blaengar y sîn gerddoriaeth Gymraeg, a chyfle i drigolion Bro Morgannwg fwynhau cerddoriaeth cyfoes Cymraeg safonol o fewn eu cymunedau yn y Fro.

Mae Gigs Bach y Fro erbyn hyn yn cael eu cefnogi gan Gynllun Noson Allan (Cyngor Celfyddydau Cymru) a'r nod yw i gynnal 4 gig yn ystod y flwyddyn, gyda Gŵyl Fach y Fro yn binacl i'r calendr o ddigwyddiadau cerddorol ym Mro Morgannwg. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi trefnu nosweithiau gydag Al Lewis, Alys Williams, Osian Williams a Steve Eaves a Rhai Pobl.

Rydym hefyd wedi ail-gydio yn elfen teithiol y Gigs, ac mae'r lleoliadau erbyn hyn yn cynnwys Clwb Rygbi Llanilltud Fawr, Park Hotel y Barri, Clwb Cogan Coronation a Chlwb y Cyn-Filwyr ym Mhenarth.

Mae cynlluniau eisoes ar y gweill ar gyfer rhaglen 2018, ac edrychwn ymlaen i groesawu mwy o artistiaid i berfformio ym Mro Morgannwg dros y flwyddyn nesaf.





# GLAMORGAN GEM

Mae'r bartneriaeth gyda phapur y Glamorgan GEM yn parhau, er ar ffurf ychydig yn wahanol i'r trefniant gwreiddiol. Erbyn hyn rydym yn cyfrannu tudalennau dwyieithog i'r papur 4 gwaith y flwyddyn – sy'n cynnwys cylchlythyr ar ddechrau bob tymor ysgol newydd, a rhifyn arbennig am Gŵyl Fach y Fro. Mae hwn yn blatfform gwych i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y Sir yn ogystal â bod yn ffynhonnell effeithiol i hyrwyddo gwasanaethau'r Fenter, ac mae'r ffaith ein bod erbyn hyn yn cyhoeddi'r cynnwys yn Gymraeg a Saesneg yn ehangu'r cyrrhaeddiad hynny.

Yn ogystal â fersiwn ar-lein, mae dros 46,000 o gopiau o'r papur yn cael eu dosbarthu yn wythnosol i gartrefi a mannau cyhoeddus ar draws Bro Morgannwg a'r cyffiniau. Mae copiau o bob cylchlythyr hefyd ar gael ar wefan y Fenter.

# GŴYL FACH Y FRO 2017

Gŵyl Fach y Fro yw'r ŵyl flynyddol a sefydlwyd gan Menter Bro Morgannwg yn 2015 i ddathlu'r defnydd o'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r ŵyl wedi ei lleoli ar Bromenâd Ynys y Barri ac mae'n rhan o becyn digwyddiadau haf y Cyngor.

Heb os, Gŵyl Fach y Fro 2017 oedd yr un mwyaf llwyddiannus eto, ac rydym fel trefnwyr yn falch i weld yr ŵyl yn datblygu a'n parhau i fynd o nerth i nerth. Llwyddwyd i ddenu dros 6,500 o bobl – cynnydd o dros 100% o'r flwyddyn flaenorol.

Ymysg yr uchafbwyntiau oedd:

- Cynnydd sylweddol yn y nifer o weithgareddau, gyda 40 o berfformiadau a gweithdai unigol yn rhan o'r ŵyl.
- Arlwy cerddorol amrywiol iawn wnaeth lwyddo i apelio at ystod eang o gynulleidfa – o fandiau pop, roc, indie, gwerin, jazz, electronig a phres.
- Am y tro cyntaf eleni cafwyd Ardal Chwarae i blant; oedd yn cynnwys ardal grefft, gweithgareddau swigod, beiciau bybls a disgo, sgiliau syrcas, gemau parasiwt a wal ddringo. Fe wnaethom hefyd gydweithio gyda Green City Events am y tro cyntaf i ddarparu rhaglen gwych o weithdai yn cynnwys Creu Penwisg, Celf Clai a Blodau Papur – roedd rhain yn ychwanegiadau poblogaidd tu hwnt.
- Cydweithio gyda busnesau a chynhyrchwyr lleol i gynnig amrywiaeth o fwyd a diod. Yn arlwyo'r ŵyl eleni roedd Ffwrnes Pizza, Grazing Shed, Bay 5 Coffee a Bragdy Tomos a Lilford – a phob un wedi gwerthu allan erbyn diwedd y prynhawn!
- Stondinau gan: Cyfarchion, Draenog, Katherine Jones, Haden Fach, Gweni, Tamaid Bach, Michael Goode, Bethan Cuddihy, Nia Clements, Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin a Dysgu Cymraeg y Fro.
- Roedd 12 o wirfoddolwyr yn cynorthwyo yn ystod y diwrnod, ac roeddent yn gyswllt hollbwysig o ran cyfeirio pobl a chodi ymwybyddiaeth bellach trwy rannu gwybodaeth am yr ŵyl gyda'r cyhoedd ar hyd y promenâd.
- Llwyddwyd i ddenu llawer mwy o ymwelwyr a phobl o tu allan i Fro Morgannwg i fwynhau'r ŵyl ar Ynys y Barri.
- Cafwyd tipyn o sylw yn y cyfryngau: cyfweliad byw ar Heno, sgwrs ar Radio Wales, sylw ar amryw o raglenni Radio Cymru ac eitemau yn y wasg leol gan gynnwys Buzz Magazine, Y Selar, Glamorgan GEM a'r Barry & District News.

Rydym yn parhau i gyd-weithio'n agos gyda Swyddog Digwyddiadau Cyngor Bro Morgannwg, ac mae trafodaethau eisoes ar y gweill gyda'r Cyngor a nifer o bartneriaid allweddol eraill ar gyfer flwyddyn nesaf. Nodyn i'ch dyddiadur – dydd Sadwrn Mehefin 16eg!

**99% yn teimlo bod Gŵyl Fach y Fro yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg yn y Fro**

**"Mor wych i gael digwyddiad hollol Gymraeg yn y Barri. Bandiau Cymraeg yn dangos fod y Gymraeg yn cwl!"**






**99% yn debygol o ddod i Gŵyl Fach y Fro eto**

**"Teimlad arbennig gweld fy mhlant, sydd yn eu harddegau, yn mwynhau cymaint â ni!"**





**"The kids things – circus skills, arts and crafts etc – were particularly good this year"**

**"Lively, friendly, inclusive, festive atmosphere"**

**"The event was fantastic in promoting the Welsh language and lots of fun"**





# PROSIECT TREFTADAETH

Yn ystod 2017, mae Menter Bro Morgannwg wedi derbyn grant o £10,000 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer y prosiect 'Iolo ar Daith'; prosiect sy'n olrhain bywyd a chyfraniad un o ffigyrau hanesyddol mwyaf eiconig Bro Morgannwg, sef Iolo Morganwg.

Mae'r prosiect yn cynnwys nifer o sesiynau a gweithgareddau sy'n cynnig cyfleoedd unigryw i oedolion, plant a phobl ifanc lleol gymryd rhan a dysgu mwy am gyfraniad sylweddol Iolo Morganwg i ddiwylliant a threftadaeth Cymraeg Bro Morgannwg a Chymru.

Fel rhan o'r prosiect, comisiynwyd Mewn Cymeriad i greu sioe deuluol un-dyn am Iolo Morganwg. Perfformiwyd y sioe am y tro cyntaf yn Gŵyl Fach y Fro 2017, yn ogystal ag ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg yn y Sir yn ystod mis Medi 2017, gan dderbyn ymateb da iawn. Fel rhan o'r broses o ymchwilio a chynllunio'r sioe, cynhaliodd y sgriptiwr Aled Richards weithdy sgriptio gyda disgyblion drama Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg, oedd yn brofiad gwych i bob un ohonynt. Bydd y sgript hefyd yn cael ei addasu i sioe stand-up i oedolion, i'w berfformio yn rhan o raglen Gigs Bach y Fro ym mis Mawrth 2018.

Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys cyfres o sesiynau ymchwil, arddangosfeydd a darlithoedd, ac fe ddaeth aelodau o'r gymuned at ei gilydd i sefydlu grŵp ymchwil dan arweiniad Dr Foster Evans i gasglu mwy o wybodaeth ar gyfer y deunyddiau yma. Bydd yr arddangosfa i'w gweld mewn mannau cyhoeddus ar draws Bro Morgannwg dros y misoedd nesaf.

Dyma bwnc unigryw sy'n cynnig nifer o haenau diddorol i'w hadrodd o fewn y prosiect, ac fe fydd pob elfen wedi eu cwblhau erbyn Mawrth 2018.








# MEITHRINFA GYMRAEG

Yn ystod 2017 rydym wedi dechrau ar y gwaith o gynllunio ac asesu’r galw am Feithrinfa Cymraeg yn y Barri. Mae hwn yn bwnc sydd wedi cael ei drafod mewn cyfarfodydd gyda’r Cyngor ers rhai blynyddoedd bellach, ond daeth cyfle i wthio’r trafodaethau ymlaen fel rhan o’r gwaith cynllunio ar gyfer ehangu safle Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

Ar hyn o bryd does dim darpariaeth gofal cwbl uniaith Gymraeg i blant mor ifanc â 6 wythnos oed yn y Fro, a gyda’r twf mewn addysg Gymraeg yn enwedig, mae’r galw yn gynyddol fawr.

Bydd y Feithrinfa:

- Ar agor dydd Llun i ddydd Gwener 7.30am - 6pm, am 52 wythnos o’r flwyddyn
- I blant a babanod 6 wythnos - 5 mlwydd oed
- Yn cynnig lle i 36 o blant
- Yn cynnig cyflogaeth i 10 o staff
- Yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr Gofal Plant
- Yn gallu cynnig gofal cofleidiol (wrap around) yn ôl y galw
- Yn cynnig ffioedd cystadleuol yn unol â darpariaethau eraill yr ardal (£45 - £50 y diwrnod yn seiliedig ar brisiau 2017), ac yn cofrestru i allu derbyn Talebau Gofal Plant

Rydym wedi cwrdd gyda nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid dros y misoedd diwethaf, a derbyn cefnogaeth gref wrth Benaethiaid, staff a Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg. Ym mis Gorffennaf cafom gyfarfod gyda’r Cynghorydd John Thomas (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorydd Jonathan Bird (Aelod Cabinet dros Adfywio a Chynllunio), Rob Thomas (Rheolwr-Gyfarwyddwr y Cyngor), ac Alun Cairns MP. Roedd y trafodaethau hynny’n galonogol iawn felly’r cam nesaf oedd i ni fynd ati i gasglu tystiolaeth ac asesu’r galw.

Rydym yn cynnal Ymgynghoriad rhwng Rhagfyr 2017 – Ionawr 2018 er mwyn casglu adborth wrth rieni, darpar rieni a defnyddwyr gwasanaeth posibl yn y dyfodol. Rydym yn awyddus i dderbyn ymatebion gan ystod eang o bobl er mwyn bod cynrychiolaeth deg gan y gymuned gyfan, ac yn dosbarthu’r holiadur trwy’r ffynonellau isod yn ogystal â chysylltiadau arferol y Fenter:

- Cysylltiadau a digwyddiadau adran Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor
- Ebost at holl staff y Cyngor
- Grwpiau Cymraeg i Blant
- Dosbarthu gwybodaeth trwy’r ysgolion a sgyrsiau wyneb yn wyneb â rhieni dosbarthiadau Meithrin y Sir
- Dosbarthu gwybodaeth trwy fydwreigiau ac ymwelwyr iechyd yr ardal
- Sesiynau crefft i rieni ifanc
- Dosbarthu gwybodaeth trwy’r rhwydwaith o fusnesau lleol
- Grwpiau ffocws gyda myfyrwyr Gofal Plant Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg a Choleg Caerdydd a’r Fro



Bydd adroddiad yn amlinellu canfyddiadau’r Ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi erbyn dechrau mis Chwefror 2018.

# GWYBODAETH ARIANNOL - CRYNODEB

**Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017**

Mae'r ffigyrau canlynol wedi'u cymryd o ddatganiad ariannol llawn Menter Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn a oedd yn dod i ben 31 Mawrth 2017, sydd wedi eu paratoi gan yr archwilwyr Watts Gregory LLP. Mae'r adroddiad llawn ar gael gan Menter Bro Morgannwg ar gais.

| | CYLLID ANGHYFYNGEDIG | CYLLID CYFYNGEDIG | CYFANSWM 2016/17 | CYFANSWM 2015/16 |
|---|---|---|---|---|
| **INCWM** | | | | |
| Grantiau a nawdd | 12,507 | 78,683 | 91,190 | 66,843 |
| Ffioedd gweithgareddau | 13,468 | - | 13,468 | 19,502 |
| **CYFANSWM INCWM** | | | **104,508** | **86,345** |
| **GWARIANT** | | | | |
| Llai: Gwariant ar gyflogau, gorbenion a gweinyddu prosiect | 17,658 | 78,683 | | 86,451 |
| **Incwm / (gwariant) net** | **8,317** | **0** | **8,317** | **(106)** |
| Treth ar weddillion (Tax on surplus) | (1,642) | - | (1,642) | - |
| Elw (Colled) am y flwyddyn (Surplus (deficit) for the financial year) | 6,675 | 0 | 6,675 | (106) |
| | | - | | 4 |
| Dygwyd ymlaen (Brought forward) | (106) | - | (106) | 18 |
| Yn weddill (Reserves) | 6,569 | | 6,569 | 312 |

**Menter Bro Morgannwg, 42 Lambourne Crescent,**
**Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GG**
**www.menterbromorgannwg.cymru / 029 20689888**
Cwmni Cyfyngedig drwy warant 8867706